# Wythnos 2 / Arddegau cynnar CA3
# Gwreiddiau ac Ystyr

## Cynllun y sesiwn

**Prif neges:** 'Darllen y Beibl. Cyfarfod Duw. Trawsnewid.'


### Adnod allweddol:

**Effesiaid 2:10**

*'Duw sydd wedi'n gwneud ni beth ydyn ni. Mae wedi'n creu mewn perthynas â'r Meseia Iesu, i ni wneud yr holl bethau da mae e wedi'u trefnu ymlaen llaw i ni eu gwneud.'*

### Adnoddau:

- Darnau o gelf fel y'u rhestrir yn yr Her Campwaith
- Darnau o bapur gydag enwau'r artistiaid ar gyfer yr Her Campwaith
- Cyfleusterau i wylio clip YouTube: **www.youtube.com/watch?v=yZ1Fd_SPC18**
- Darn mawr o bapur a beiro
- Papur a beiros sbâr



**GWREIDDIAU** *AC YSTYR* | **EXODUS** *A RHYDDID* | **ALLTUDIAETH** *A HEDDWCH* | **MESEIA** *A CHARIAD* | **YSBRYD** *A CHYMUNED* | **GOBAITH** *A CHARTREF*

# 'Twirl' o Gariad

Dewiswch wirfoddolwr a rhoi mwgwd arno neu gofynnwch iddo wynebu'r wal (fel na allant weld y tri gwirfoddolwr arall sydd ar fin cael eu dewis). Dewiswch dri gwirfoddolwr arall (gan fod yn ofalus i beidio defnyddio eu henwau wrth eu dewis), a rhowch rifau 2, 3, a 4 iddynt. Rhowch gwestiwn yr wythnos i wirfoddolwr rhif 1 - os nad oes mwgwd arno gall ddarllen y cwestiwn yn uchel, neu os yw yn gwisgo mwgwd, gall yr arweinydd ei ddarllen (os bydd y rhai iau yn ei chael hi'n anodd i ddarllen y cwestiwn, efallai y bydd angen i'r arweinydd ei ddarllen). Dylech annog gwirfoddolwr 1 i wrando'n ofalus ar yr atebion y mae gwirfoddolwyr rhif 2, 3 a 4 yn eu rhoi. Rhaid iddyn nhw ddewis yr ateb gorau - a pwy bynnag maen nhw'n ei ddewis fel yr enillydd fydd yr un maen nhw'n rhannu'r siocled 'Twirl' gyda nhw (gellir defnyddio unrhyw far siocled dau ddarn fel Twix yn lle Twirl).

Cwestiwn yr wythnos hon yw: Pa air yn dechrau gyda 'P' wnaethon ni ei ddysgu yn y Beibl yr wythnos diwethaf? (Ateb: Pwerus.)

Pam mae'r Beibl mor bwerus? (Ateb: Oherwydd mai gair Duw yw'r Beibl a gall newid bywydau pobl.)


***Addasu ar gyfer Zoom***

- Gellir dal chwarae'r gêm os ar Zoom hefyd - yn syml, mae angen i wirfoddolwr 1 roi mwgwd ei hun ymlaen o flaen y sgrin
- Pan ddewiswch eich tri gwirfoddolwr ychwanegol, ysgrifennwch eu henwau ar bapur a'u dal at y sgrin, fel y gallant weld a gwybod pwy rydych chi wedi'i ddewis
- Bydd angen i chi gael bar o Twirl gyda chi wrth eich ymyl i'w ddangos ar y sgrin ac esgus ei roi i'r enillwyr terfynol

# Cychwyn gyda'r Beibl

**Cyfeiriwch at adnod allweddol y Beibl - os ydych chi'n defnyddio papur, ysgrifennwch yr adnod ar ddarnau gwahanol o bapur fel yn y lluniau isod. Darllenwch yr adnod yn uchel gyda'ch gilydd**

**Dechreuwch bob darlleniad gyda'r llinellau hyn: *'Mae'r Beibl yn LLAWN o eiriau Duw. Mae'n gist drysor ryfeddol, yn llawn o bethau hardd a phwysig. Beth sydd ganddo i'w ddweud wrthym ni heddiw?'***




***Addasu ar gyfer Zoom***

- Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw cael yr adnod ar PowerPoint a rhannu eich sgrin
- Gallwch hefyd ei ysgrifennu ar bapur a'i ddal i fyny at y sgrin

# Gweithgaredd: Fi! Yn gampwaith?

**Darllenwch** Genesis 1:1–27

**Gwyliwch** y ffilm 'Creation' (Saddleback Kids): **www.youtube.com/watch?v=yZ1Fd_SPC18**

**Trafodaeth:** Gofynnwch i'r grŵp, yn seiliedig ar yr hyn maen nhw newydd ei weld a'i glywed o'r Beibl, i ystyried beth sydd i'w weld yn stori'r creu sy'n dangos ein bod ni'n arbennig i Dduw, ac mai ni yn wir yw ei gampwaith.

**Cymhwyso:** Gwnaeth Duw bobl ar ei ddelw ei hun; ni yw'r unig bethau a wnaeth sydd yn debyg iddo. Fe'n gwnaed i fod yn debyg iddo - dyma sy'n ein gwneud yn gampwaith.

# Gweithgaredd: Fi-ddyfeisiwr

Rhowch wybod i'r grŵp eu bod bellach yn ddyfeiswyr. Eu gwaith yw creu cynllun ar gyfer robot. Rhaid iddyn nhw benderfynu popeth: sut olwg fydd arno, beth y gall ei wneud, pwy mae'n ufuddhau iddo, ac unrhyw nodweddion arbennig. Pa elfennau ohonoch chi sydd ynddo?

Wrth iddynt awgrymu eu syniadau, lluniwch eu robot (gan ddechrau gyda sut y mae'n edrych) a'i labelu gyda'r holl nodweddion a ddewisir gan y grŵp.

**Trafodaeth:** Gofynnwch i'r grŵp sut maen nhw'n teimlo am eu robot. Beth maen nhw'n falch ohono? Beth yw swyddogaeth orau'r robot? Nawr gofynnwch iddyn nhw ystyried pa hawliau sydd gennych chi fel dylunydd a pherchennog ar y robot. Er enghraifft, mae patent cyfreithiol yn rhoi'r hawl i'r perchennog 'wahardd eraill rhag gwneud, defnyddio neu werthu dyfais debyg'. Pam mae hyn yn bwysig i ddyfeisiwr?

Nawr ystyriwch eich patent eich hun ar gyfer eich robot - pa hawliau sy'n gynhenid i'ch patent?

- I bwy mae'ch robot yn atebol?
- Pwy sydd â'r gair olaf dros yr hyn y mae eich robot yn ei wneud a phwy sy'n ei ddefnyddio?
- I bwy y dylai fod yn deyrngar? (Beth os yw'n cael cynnig gwell rhywle arall?)
- Os oes unrhyw un arall eisiau ei ddefnyddio, pa amodau fyddech chi'n eu rhoi ar ei waith?
- Beth os oes rhywun eisiau cymryd cynllun eich robot chi er mwyn ei addasu drwy ychwanegu darnau bach neu dynnu darnau bach ohono?

**Cymhwyso:** Gwnaeth Duw ni ac fe greodd ni i weithredu yn y ffordd rydyn ni'n gwneud. Yn union fel ddaru ni dreulio amser yn creu ein robot, buddsoddodd Duw 'ei hun' ynom ni fel pobl. Dyma beth mae'n ei olygu i gael ein gwneud ar ei lun a'i ddelw ef. Rydym YN cyfri, mae gennym werth anhygoel, oherwydd mae Duw wedi ein creu ac rydym yn perthyn iddo. Ni ydy Campwaith Duw; ac rydym ond ar ein gorau pan fyddwn yn dewis bod yn debycach iddo ef.

# Gweithgaredd: Canlyniadau Trychinebus

Beth am gael ychydig o hwyl wrth wneud hyn? - mae ychydig yn debyg i'r gêm lle mae gennych chi ben, corff a choesau o gymeriadau amrywiol a'u cymysgu. Sicrhewch amrywiaeth o wrthrychau bob dydd fel y rhai isod a gofynnwch i'r plant ystyried beth allai'r canlyniad fod pe byddent yn cael eu defnyddio ar gam. Er enghraifft, 'Sut brofiad fyddai hi pe byddem ni ...'

- Wedi defnyddio peiriant torri gwair i lanhau ein carpedi?
- Wedi defnyddio sychwr gwallt i goginio reis?
- Wedi defnyddio cyfrifiadur i gynhesu pryd bwyd microdon?
- Wedi defnyddio morthwyl i gymysgu wy?
- Wedi defnyddio agorwr tuniau i roi min ar bensil?

Gallwch gael hwyl yn siarad am y canlyniadau posibl o gam-ddefnyddio'r gwrthrychau yn y modd hwn.

**Cymhwyso:** Mae pob un o'r eitemau hyn wedi'u cynllunio i wneud gwaith penodol. Os caiff ei ddefnyddio ar gyfer y swydd anghywir, ni fydd y canlyniad yn dda. Creodd Duw ni i fod yn debyg iddo a byw fel ef. Os dewiswn beidio â gwneud hyn, ni fydd y canlyniad fel y bwriadodd Duw ar ein cyfer. Mae Duw eisiau inni ei garu a bod yn debyg iddo.

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Yn syml, dangoswch rai delweddau ar y sgrin
- Gofynnwch i'r plant beth allai ddigwydd pe byddent yn glanhau eu carped gyda pheiriant torri gwair
- Os nad oes gan y grŵp unrhyw syniadau, dangoswch lun iddynt o garped wedi'i dorri

# Activity: Discussion

Gwahoddwch eich grŵp i sgwrsio a thrafod y cwestiynau canlynol:

1. Os mai Duw yw ein crëwr, a fyddech chi'n cytuno ei bod yn gwneud synnwyr gwrando arno ynglŷn â sut i fyw ein bywydau? Pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn bwysig?

2. Pa bethau da all ddod o wybod mai Duw a'n creodd ni? (e.e. mae gennym ni bwrpas, rydyn ni'n ddiogel, mae gennym ni werth, rydyn ni'n cael ein caru).

3. Os ydyn ni mewn gwirionedd yn gampwaith Duw, sut mae hyn yn newid sut rydych chi'n gweld eich hun a sut rydych chi'n byw?

**Cymhwyso:** Gwahoddwch y grŵp i ystyried ysgrifennu nodyn neu anfon testun at rywun maen nhw'n ei adnabod sydd angen anogaeth yr wythnos hon. Fel arall, gofynnwch iddyn nhw feddwl a oes yna bobl y maen nhw'n eu trin yn wael, o gofio bod pawb yn arbennig i Dduw, a'u bod nhw hefyd yn gampwaith iddo.

# Gweddi greadigol

Beth am annog y bobl ifanc i edrych arnyn nhw eu hunain mewn drych, neu ddefnyddio eu camera ar y ffôn i dynnu hunlun? Os ydych chi'n defnyddio ffôn, gofynnwch iddyn nhw i basio'r ffonau o amgylch y grŵp a gofynnwch i'r grŵp weddïo dros bob person wrth iddyn nhw dderbyn y ffôn ac edrych ar yr hunlun. Ar y diwedd, defnyddiwch y weddi isod i gloi eich sesiwn:

**Gweddïwn**

*Iesu, diolch am bawb sy'n rhan o'r grŵp hwn (fe allech chi eu henwi i gyd os ydych chi'n gallu).*

*Atgoffa ni oll mai ni yw dy gampwaith di, wedi'n creu ar dy ddelw di. Diolch am ein gwneud ni mor arbennig.*

*Pan fyddwn yn teimlo'n drist neu'n unig, yn siomedig neu'n ddigariad, atgoffa ni ein bod yn anhygoel.*


*Amen*

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Gofynnwch i bob person ifanc ddal ei hunlun ar y sgrin
- Fel arweinydd, gweddïwch y weddi uchod dros bob un aelod o'r grŵp

## Sesiwn nesaf:

Sesiwn 3: Exodus *a Rhyddid*



GWREIDDIAU *AC YSTYR* — **EXODUS** *A RHYDDID* — ALLTUDIAETH *A HEDDWCH* — MESEIA *A CHARIAD* — YSBRYD *A CHYMUNED* — GOBAITH *A CHARTREF*